# ASESIADAU EFFAITH LLAWN

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ystyried hawliau plant fel y'u nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ym mhopeth a wna. Mae CCUHP yn darparu'r safon ofynnol, na ddylai unrhyw blentyn syrthio'n is na hi.

Mae Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig Cymru yn pennu cyfeiriad camau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant dros y degawd nesaf neu fwy ac i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau na'u cefndir. Mae hefyd yn darparu fframwaith i'n galluogi i fanteisio i'r eithaf ar yr ysgogiadau sydd ar gael i ni er mwyn helpu i ddileu tlodi plant.

Nod y strategaeth yw sicrhau integreiddio cryfach ar draws ein polisïau, ein rhaglenni a'n cynlluniau gweithredu cenedlaethol a chefnogi cydweithio ar lefelau rhanbarthol a lleol. Bydd hyn yn cyflawni ein huchelgais i sicrhau profiad a chanlyniadau tecach i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Ein gweledigaeth i Gymru:

> "Gwlad sy'n galluogi plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau, sicrhau llesiant da a gwireddu eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol)."

Rydym am weithio gyda'n partneriaid tuag at Gymru lle y gall plant, beth bynnag fo incwm y teulu, arfer eu hawliau o dan CCUHP, heb wahaniaethu.

Yr erthygl yn CCUHP sydd â'r cysylltiad agosaf â thlodi plant yw Erthygl 27 (Safon Byw sy'n Ddigonol) Mae gan bob plentyn yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu ei anghenion corfforol a chymdeithasol a chefnogi ei ddatblygiad. Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd na allant fforddio darparu hyn.

Mae llawer o bethau y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi plant i wireddu eu hawl i safon byw sy'n ddigonol, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn amcanion a blaenoriaethau'r strategaeth. Fodd bynnag, o ran lleihau nifer y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), mae'r ffaith nad yw'r setliad datganoli yn rhoi pwerau inni dros y system treth a budd-daliadau yn cyfyngu, mewn rhai ffyrdd, ar yr effaith y gallwn ei chael ar incymau aelwydydd.

Mae penderfyniadau am dreth a gwariant cyhoeddus ar lefel Llywodraeth y DU yn cael effaith uniongyrchol ar incymau aelwydydd yng Nghymru a'r gyllideb sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

Ar yr un pryd, Erthygl 26 (nawdd cymdeithasol) Mae gan bob plentyn yr hawl i gael budd o nawdd cymdeithasol. Rhaid i lywodraethau ddarparu nawdd cymdeithasol, gan gynnwys cymorth ariannol a budd-daliadau eraill i deuluoedd y mae angen cymorth arnynt, fel mesur diogelu allweddol rhag tlodi plant ac er mwyn gwireddu hawliau o dan Erthygl 27 (safon byw sy'n ddigonol). Er y gallwn gymryd camau i helpu rhieni/gofalwyr i fanteisio'n llawn ar eu hawliau drwy system budd-daliadau'r DU a mynd ar drywydd gwaith ar y system budd-daliadau i Gymru, mae polisïau ar waith yn y DU ar hyn o bryd sy'n cael effaith negyddol ar deuluoedd â phlant.

O ganlyniad, mae Gweinidogion Cymru wedi galw'n gyson ar Lywodraeth y DU i gymryd camau pellach i ddileu'r cap ar fudd-daliadau a'r terfyn dau blentyn, gwneud newidiadau i'r polisi ar ddidynnu Credyd Cynhwysol a chynyddu'r Lwfans Tai Lleol a chyllid ar gyfer Taliad Disgresiwn at Gostau Tai.

Yn ôl y data diweddaraf, yng Nghymru, roedd 28% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai) rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2020 a'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022. Mae hyn yn cyfateb i tua 180,000 o blant dibynnol dan 19 oed.

Gellir ystyried mai tlodi plant yw'r broblem fwyaf cyffredin a sylweddol o ran hawliau plant a wynebir gan blant. Mae tlodi plant yn cyfyngu ar allu plant i arfer eu hawliau o dan CCUHP mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft:

Fodd bynnag, ni ellir ystyried y strategaeth ar ei phen ei hun ac nid yw'n ddogfen annibynnol. Mae'r uchelgeisiau a nodir yma yn ystyried nifer o ddyletswyddau deddfwriaethol pwysig a osodir ar Weinidogion Cymru a byddant yn llywio ein polisïau, ein cynlluniau a'n rhaglenni ym mhob rhan o'r llywodraeth, nawr ac am flynyddoedd i ddod.

Rydym wedi datblygu pum amcan lefel uchel hirdymor i lywio ein hymdrechion ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru o dan y Rhaglen Lywodraethu bresennol a Rhaglenni Llywodraethu'r dyfodol.

Mae'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a wnaed i ddatblygu'r strategaeth hon wedi ein helpu i ddeall ble mae angen inni ganolbwyntio ein hymdrechion, fel rhan o'n gwaith ehangach i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, er mwyn sicrhau mwy o newid mewn cyn lleied o amser â phosibl, a chynnal y newid hwnnw.

Felly, o dan bob amcan, rydym hefyd wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu i ddiwallu'r angen hwnnw am newid parhaus.

<u>Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc sydd â phrofiad bywyd o dlodi</u>

Gall plant a phobl ifanc sy'n wynebu anfantais oherwydd eu cefndir economaidd-gymdeithasol neu eu hamgylchiadau ei chael hi'n anodd lleisio eu barn yn unol â'u hawl o dan Erthygl 12 (parchu barn y plentyn).

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon er mwyn ymgynghori arni, clywsom gan 1,402 o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad bywyd o dlodi, a gymerodd ran drwy sefydliadau

sy'n gweithio gyda phlant a phobl ac ar eu rhan. Mae'n bwysig bod y polisïau a nodir yn y strategaeth yn cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n adlewyrchu barn plant a phobl ifanc sydd â phrofiad bywyd o dlodi.

Gweithiodd sefydliadau a hwylusodd y gwaith ymgysylltu hwn ar ein rhan gyda phlant a phobl ifanc mewn nifer o ffyrdd.

- Gwnaethom gomisiynu Plant yng Nghymru, Achub y Plant, Voices from Care i weithio gyda 102 o blant a phobl ifanc drwy ysgolion a grwpiau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

- Gwnaethom hefyd gomisiynu EYST a Women Connect First i gynnig digwyddiadau ymgysylltu i deuluoedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac fel rhan o'r gwaith hwnnw, gwnaethant ymgysylltu â 68 o blant a phobl ifanc drwy grwpiau ffocws.

- Ymgysylltodd grwpiau cymunedol a sefydliadau y rhoddwyd grantiau bach iddynt o dan ein cynllun i ymgysylltu â theuluoedd â nodweddion gwarchodedig, â 1,070 o blant a phobl ifanc, gan gynnwys pobl ifanc anabl a niwrowahanol, plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, pobl ifanc LHDTC+, pobl ifanc â phrofiad o fod yn ddigartref, rhieni ifanc a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Teithwyr neu Roma. Cafodd y gwaith hwn ei wneud mewn nifer o ffyrdd, drwy grwpiau sy'n bodoli eisoes a digwyddiadau ymgysylltu pwrpasol, ac fel rhan o sesiynau chwarae a gweithgareddau i deuluoedd.

- Dyfarnwyd grantiau gan Lywodraeth Cymru i Gynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol lleol drwy gynllun a weinyddwyd gan CGGC ar ein rhan i ymgysylltu â theuluoedd ac aelodau cymunedau, ac fel rhan o’r gwaith hwn, gwnaethant ymgysylltu â 162 o blant a phobl ifanc.

Rhannwyd fersiwn i bobl ifanc o Fframwaith Trafod â’r sefydliadau hyn, a defnyddiodd y sefydliadau wahanol ddulliau i rannu pedwar maes trafod â phlant a phobl ifanc. Gofynnwyd hefyd i blant a phobl ifanc ddweud wrthym am unrhyw beth a oedd yn bwysig iddynt ac nad oedd y pedwar maes trafod yn ei gwmpasu.

<u>Tystiolaeth o waith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc</u>

Costau byw: Siaradodd plant a phobl ifanc am gostau bwyd, tanwydd, tai a ‘biliau’. Maent yn ymwybodol iawn o’r pwysau ariannol a wynebir gan eu teuluoedd. Ymysg plant a phobl ifanc o deuluoedd sy’n Ffoaduriaid ac yn Geiswyr Lloches yr oedd tlodi bwyd yn fwyaf tebygol o gael ei nodi. Roedd allgau digidol a chost trafnidiaeth hefyd yn broblem, yn enwedig i blant a phobl ifanc o deuluoedd sy’n Ffoaduriaid ac yn Geiswyr Lloches.

Costau’r ysgol: Roedd bwyd yn yr ysgol yn un o'r prif themâu a nodwyd gan blant a phobl ifanc, a oedd am i fwy o blant a phobl ifanc gael brecwast a phrydau am ddim yn yr ysgol. Siaradodd pobl ifanc hefyd am gost bwyd yn yr ysgol uwchradd. Dywedodd rhai plant a phobl ifanc eu bod yn mynd heb fwyd yn yr ysgol.

Gwnaethant ddweud na all eu teuluoedd fforddio cost gwisg ysgol, offer ysgol na theithiau ysgol. Soniodd plant a phobl ifanc o deuluoedd sy'n Ffoaduriaid ac yn Geiswyr Lloches hefyd am ddiffyg trafnidiaeth am ddim i gyrraedd yr ysgol.

Incwm a chyngor: Dywedodd plant a phobl ifanc fod angen i'w rhieni allu manteisio ar ofal plant am ddim er mwyn iddynt allu gweithio. Dywedodd plant a phobl ifanc hefyd fod angen darparu addysg ariannol a chyngor ar gyllidebu mewn ysgolion, er mwyn eu paratoi ar gyfer y dyfodol.

Soniodd rhai plant a phobl ifanc am gymhlethdod y system budd-daliadau, anawsterau o ran cael gafael ar wybodaeth am hawliau a lefelau budd-daliadau (gwerth ariannol), a manteisio arnynt. Soniodd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal am hyn, ac am eu hanawsterau personol o ran cael gafael ar gymorth ariannol a'i ddeall. Siaradodd plant â rhieni y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt am bwysigrwydd darparu gwybodaeth a ffurflenni hawlio mewn ieithoedd gwahanol. Dywedodd pobl ifanc sy'n Roma fod angen mwy o gymorth gan y llywodraeth mewn perthynas â chynnig cyfleoedd am swyddi, bwyd, arian a chyngor.

Addysg: Siaradodd plant a phobl ifanc hefyd am gost addysg wrth feddwl am lwybrau allan o dlodi. Gwnaethant nodi bod buddsoddi mewn addysg yn bwysig i ddatblygu llwybrau allan o dlodi.

Dywedodd pobl ifanc eu bod am gael cynnig ehangach o addysg ‘ymarferol,’ galwedigaethol a ‘hanfodol i fywyd’. Dywedodd plant a phobl ifanc fod angen mwy o gymorth ar y rheini sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel mewn perthynas â llythrennedd ariannol.

Dywedodd pobl ifanc hefyd fod angen iddyn nhw a'u rhieni gael cyfleoedd hyfforddi a dysgu gydol er mwyn eu hysbrydoli a'u galluogi i feithrin sgiliau i wella eu rhagolygon cyflogaeth.

Dywedodd plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol fod angen mwy o gymorth addysgol ar y rheini sydd wedi cyrraedd y DU yn ddiweddar ac sy'n ymuno â'r cwricwlwm yn ddiweddarach mewn bywyd, yn ogystal â'r rheini â lefelau cyrhaeddiad is yn eu rhwydwaith teulu ehangach. Mae pobl ifanc sy'n Roma am gael mwy o gymorth yn yr ysgol a gwersi Saesneg i bawb o gefndir Roma.

Dywedodd pobl ifanc anabl, pobl ifanc niwrowahanol a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig nad oeddent yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn yr ysgol. Teimlai eraill nad oedd athrawon wedi'u haddysgu'n ddigon da am anawsterau dysgu, ac nad oedd digon o adnoddau ar gael i brofi a oedd rhywun ar y sbectrwm awtistiaeth.

Dywedodd rhai pobl ifanc fod angen cynnal cymorth un i un ar gyfer plant ag anableddau ac nad oedd digon o ysgolion sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Dywedodd plant a phobl ifanc eu bod am gael mwy o gymorth a chyngor ar yrfaoedd. Gwnaethant hefyd ddweud y byddent yn gwerthfawrogi cael mwy o gyswllt ag oedolion a allai fod yn fodelau rôl iddynt a'u helpu i gredu y gallent wireddu eu dyheadau.

Galluogi rhieni i weithio: Dywedodd llawer o blant a phobl ifanc fod angen i'w rhieni allu manteisio ar ofal plant am ddim er mwyn iddynt allu hyfforddi neu weithio. Dywedodd plant a phobl ifanc hefyd fod angen i'w rhieni gael cyfleoedd hyfforddi am

ddim i'w galluogi i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith neu gamu ymlaen mewn gwaith. Gwnethant hefyd ddweud bod angen swyddi a chyflogau teg, a chymorth i rieni eu cael.

Trafnidiaeth: Nododd plant a phobl ifanc fod trafnidiaeth cost isel neu am ddim yn bwysig er mwyn iddyn nhw a'u rhieni fanteisio ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Dywedodd pobl ifanc hefyd y byddai trafnidiaeth am ddim yn eu galluogi i fanteisio ar weithgareddau cymdeithasol, chwaraeon a diwylliannol.

Soniodd plant a phobl ifanc hefyd am argaeledd a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd pobl ifanc sy'n Roma hefyd ei bod hi'n anodd cael gafael ar drafnidiaeth gyhoeddus. Dywedodd plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wrthym fod angen cynllun cymhorthdal teithio er mwyn manteisio ar addysg a hyfforddiant. Dywedodd pobl ifanc anabl wrthym am broblemau o ran trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch, yn enwedig os oeddent yn defnyddio cadair olwyn.

Cymunedau: Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym eu bod am gael cymunedau diogel i dyfu i fyny ynddynt, gyda mwy o fannau gwyrdd, lleoedd i chwarae a phethau i'w gwneud. Cyfeiriodd rhai pobl ifanc at ysgolion fel hybiau cymunedol a allai gynnig cymorth a gweithgareddau.

Soniodd plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn neu Deithwyr am ddiffyg mannau awyr agored o ansawdd uchel i chwarae ar safleoedd swyddogol a diffyg cysylltiadau trafnidiaeth i weithgareddau eraill. Mae plant a phobl ifanc sy'n Roma am gael mannau cymunedol diogel.

Dywedodd plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, yn enwedig y rheini o deuluoedd sy'n Geiswyr Lloches, eu bod yn teimlo wedi'u hymyleiddio a'u hynysu yn eu cymunedau. Nodwyd hiliaeth fel problem sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd, y mae angen ei herio a mynd i'r afael â hi.

Dywedodd pobl ifanc anabl a niwrowahanol fod angen gweithgareddau a chyfleoedd chwarae cynhwysol yn eu cymunedau.

Teimlai pobl ifanc LHDTC+ fod angen mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar lefel y gymuned er mwyn hyrwyddo cynhwysiant a'u hatal rhag teimlo wedi'u hymyleiddio.

Dywedodd rhai plant a phobl ifanc hefyd fod angen gwybodaeth, cyngor a chymorth ar rieni a theuluoedd yn y gymuned. Dywedodd rhai hefyd fod angen tai sefydlog a chartrefi clyd i fyw ynddynt, ond y prif ffocws oedd y cymunedau lle maent yn byw.

Soniodd plant a phobl ifanc hefyd am bwysigrwydd cyfleoedd i lywio'r penderfyniadau a wneir am ddatblygiadau yn eu cymunedau.

Cost gweithgareddau, cyfleoedd chwarae a chwaraeon: Dywedodd plant a phobl ifanc nad oeddent yn gallu manteisio ar weithgareddau, gan gynnwys celf a cherddoriaeth, chwarae a chwaraeon, oherwydd costau. Gwnaethant ddweud eu bod am gael gweithgareddau, cyfleoedd chwarae a chwaraeon am ddim yn eu cymunedau, am fod costau teithio hefyd yn gallu fod yn rhwystr i gymryd rhan mewn gweithgareddau cost isel/am ddim.

Cymorth ar gyfer llesiant corfforol ac emosiynol: Dywedodd plant a phobl ifanc y gall fod yn anodd cael cymorth ar gyfer eu llesiant.

Cael eu clywed: Dywedodd plant a phobl ifanc a oedd yn rhan o grŵp/yn cael cymorth gan wasanaeth eu bod am i fwy o wasanaethau lleol wrando arnynt, cydnabod eu hanghenion a bod yn gynhwysol, ac roedd hyn yn arbennig o wir am y rheini a oedd yn mynychu grŵp/gwasanaeth arbenigol mewn perthynas â nodwedd warchodedig.

Teimladau yn ymwneud â stigma a diffyg dealltwriaeth o dlodi: Dywedodd plant a phobl ifanc hefyd eu bod yn teimlo embaras ac wedi'u stigmateiddio y tu allan i addysg oherwydd tlodi. Roedd hyn yn seiliedig ar deimladau bod sefyllfa economaidd eu teulu yn amlwg iawn. Rhannodd plant a phobl ifanc negeseuon clir a chryf â ni ynglŷn â theimlo eu bod yn cael eu stigmateiddio a'u heithrio yng nghymuned yr ysgol.

Yn gysylltiedig â hyn roedd teimladau plant a phobl ifanc eu bod yn cael eu beirniadu, eu trin yn wahanol a'u stigmateiddio oherwydd y ffordd y mae cymorth i ddysgwyr o aelwydydd incwm isel yn cael ei reoli. Teimlai plant a phobl ifanc fod diffyg dealltwriaeth ymysg staff ysgolion o broblemau tlodi yn aml, a bod rhai dysgwyr yn teimlo embaras neu'n cael eu bwlio gan ddysgwyr eraill am fod angen cymorth ariannol arnynt.

Dywedodd rhai pobl ifanc eu bod yn cael eu cosbi am nad oes ganddynt y wisg ysgol gywir neu'r deunydd ysgrifennu cywir am na allant eu fforddio. Gwnaethant hefyd ddweud eu bod yn cael eu cosbi am gyrraedd yn hwyr am reswm da, ac nad oedd neb yn gwrando arnynt.

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym fod angen hyfforddiant ar bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau addysg a gwasanaethau eraill er mwyn iddynt ddeall effaith tlodi ar ddysgwyr yn well. Dywedodd rhai ohonynt hefyd fod angen addysgu dysgwyr eraill er mwyn iddynt ddeall problemau tlodi yn well.

Dywedodd plant a phobl ifanc hefyd fod angen gwaith i'w helpu i gael eu clywed ac i gael llais fel ffordd o oresgyn yr embaras a'r stigma sy'n gysylltiedig â gofyn am help.

Gwahaniaethu: Soniodd plant a phobl ifanc hefyd am wahaniaethu a diffyg dealltwriaeth o faterion yn cynnwys ethnigrwydd, rhywioldeb, niwrowahaniaeth neu'r profiad o fod mewn gofal.

Siaradodd rhai plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol am hiliaeth a gwahaniaethu. Dywedodd plant a phobl ifanc sy'n geiswyr lloches fod pobl yn gwneud iddynt deimlo nad ydynt yn perthyn i gymdeithas Cymru.

Siaradodd pobl ifanc sy'n Sipsiwn, Teithwyr neu Roma am stigma a gwahaniaethu yn yr ysgol ac mewn cymunedau.

Dywedodd pobl ifanc LHDTC+ fod pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail eu rhywioldeb.

Dywedodd rhai pobl ifanc sydd â dyslecsia, awtistiaeth neu ADHD eu bod yn teimlo'n bryderus wrth ddelio ag asiantaethau, a gwnaethant ofyn am ddealltwriaeth well a

mwy o hyblygrwydd. Roeddent am gael sgyrsiau â phobl yn hytrach na llenwi ffurflenni.

Teimlai pobl ifanc â phrofiad o fod yn ddigartref neu gamddefnyddio sylweddau eu bod yn cael eu stigmateiddio a'u trin yn wael gan wasanaethau oherwydd eu profiadau.

Dywedodd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal eu bod yn cael eu beirniadu a'u labelu.

Soniodd plant a phobl ifanc am y gwahaniaeth y gall ei wneud pan fyddant yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u parchu.

<u>Sut mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn ymateb i dystiolaeth o weithgarwch ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.</u>

Mae Amcan 1 yn nodi holl bolisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael digon o gymorth ariannol a pherthnasol i ddiwallu eu hanghenion.

Mae Blaenoriaeth 1 yn cynnwys ymrwymiad i roi system budd-daliadau ar waith i Gymru sy'n seiliedig ar y Siarter ac a ddarperir â thosturi, a chyflymu gwaith gyda'n partneriaid i symleiddio'r broses o wneud cais am fudd-daliadau Cymru er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch.

Mae Amcan 1 yn nodi holl bolisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru sydd ar waith i leihau costau a helpu teuluoedd ac ysgolion i dalu costau addysg.

Mae Blaenoriaeth 1 yn cynnwys ymrwymiad i gyflymu ein gwaith gydag Estyn a phartneriaid gwella ysgolion (awdurdodau lleol, Consortia) er mwyn sicrhau bod addysg yn brofiad niwtral o ran cost i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae Blaenoriaeth 1 y strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yn gwneud i bob cyswllt gyfrif, fel bod pobl yn cael gwybodaeth a chyngor wyneb yn wyneb ynglŷn â sut i gael cymorth i fanteisio'n llawn ar eu hawliau ariannol.

Siaradodd y plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori am yr hyn a fyddai'n gwneud gwahaniaeth, yn eu barn nhw, i'w helpu i wireddu eu potensial, ond gwnaethant hefyd ddweud wrthym am y cymorth a fyddai'n helpu eu rhieni, yn eu barn nhw.

Mae Amcan 2 yn nodi cenhadaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb drwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a chefnogi pob dysgwr. Bydd pob dysgwr, beth bynnag fo'i gefndir, yn cael ei gefnogi i fod yn ddinesydd iach, brwdfrydig, blaengar a moesegol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith. Mae hyn yn cynnwys gyrfaoedd ymarferol seiliedig ar addysg, profiadau cysylltiedig â gwaith, a chyngor ar yrfaoedd, Mae Amcan 2 hefyd yn nodi deddfwriaeth a pholisi ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae Blaenoriaeth 4 yn cynnwys ymrwymiad i fynd ati ar frys i roi ffocws newydd i'n gwaith gydag Estyn, ein partneriaid a rhanddeiliaid ehangach er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau i roi dulliau prawfesur addysg o safbwynt tlodi ar waith, a chreu amgylcheddau addysg cynhwysol sy'n seiliedig ar Hawliau'r Plentyn a gwerthoedd nad ydynt yn gwahaniaethu.

Mae Amcan 2 yn nodi dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu economi llesiant gref, sydd â'r nod o dyfu'r economi a lleihau anghydraddoldebau mewn cymunedau ledled Cymru. Mae Amcan 2 hefyd yn nodi'r gwaith rydym eisoes yn ei wneud i hyrwyddo darpariaeth gofal plant o ansawdd uchel a darparu'r cynnig gofal plant i deuluoedd cymwys. Mae Amcan 2 yn cynnwys ein polisïau sy'n anelu at leihau cost a gwella hygyrchedd trafnidiaeth gynaliadwy i bawb yng Nghymru, gan gynnwys myfyrwyr.

Mae Blaenoriaeth 2 yn cynnwys ymrwymiadau i hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol a'r gallu i fanteisio ar undebau llafur, ac ymgorffori gwaith teg mewn ymyriadau ehangach ym maes sgiliau a datblygu economaidd. Byddwn hefyd yn rhoi darpariaethau ein Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ar waith. Dileu'r rhwystrau i gyflogaeth a llwybrau gyrfa a wynebir gan bobl anabl, menywod, gofalwyr a phobl ethnig leiafrifol a gwella arferion a diwylliant gweithleoedd. Mynd ati ym mhob rhan o'r llywodraeth i ddod o hyd i ddatrysiadau fforddiadwy i gostau gofal plant a thrafnidiaeth, er mwyn dileu'r rhwystrau i gael gwaith a gwneud i waith dalu. Rhaid i hyn gael ei gyflawni heb gyfaddawdu'r angen i sicrhau bod pob darpariaeth gofal plant o safon sy'n diwallu anghenion plant a bod datrysiadau ar gyfer trafnidiaeth yn seiliedig ar ymrwymiadau Cymru Sero Net.

Mae Amcan 3 yn nodi'r polisïau a'r rhaglenni y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i gefnogi cymunedau, hyrwyddo dulliau fel Ysgolion Bro o hyrwyddo chwarae, chwaraeon a chyfleoedd i bobl ifanc, a pholisïau i hybu iechyd meddwl a llesiant.

Mae Blaenoriaeth 3 yn cynnwys ymrwymiadau i ystyried y gymuned wrth ddatblygu, adolygu ac ariannu polisïau a rhaglenni perthnasol, gan hyrwyddo gwasanaethau aml-asiantaeth 'siop un stop' yn y gymuned er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r amrywiaeth o anghenion ac anfanteision cydgysylltiedig y mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn eu hwynebu. Sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi ysgolion i ddatblygu'n ysgolion bro, gan ymateb i anghenion eu cymuned, meithrin partneriaeth gref â theuluoedd a chydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill. Bwrw ati, ar y cyd â phartneriaid, i gynnig mwy o gyfleoedd chwarae, chwaraeon ac ieuenctid yn y gymuned a chyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau'r celfyddydau, diwylliant ac adnoddau naturiol, yn ogystal â gweithgareddau cost isel i deuluoedd i gefnogi iechyd a llesiant.

Mae Blaenoriaeth 3 yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau, wrth ddatblygu ein Polisi Cymunedau, ein bod yn nodi ffyrdd newydd, cydgynhyrchiol o weithio, sy'n gynhwysol i bawb, gan ddefnyddio dull gweithredu cymunedol i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau cydgysylltiedig lleol i drechu tlodi heb stigma.

Mae Amcan 4 yn nodi'r modd rydym yn cefnogi ffyrdd o wrando ar leisiau plant a phobl ifanc wrth ddatblygu polisïau sy'n effeithio arnynt, ac mae hyn yn rhan o'n cyfrifoldeb o dan CCUHP. Rydym yn gwneud ymrwymiad clir i gytuno ar ffyrdd o

gynnwys plant a phobl ifanc er mwyn iddynt allu rhoi gwybod inni a ydym yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion a'n blaenoriaethau i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'n partneriaid i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel yn cael cyfleoedd cyson i gael eu clywed ar lefel gymunedol, lleol a rhanbarthol. Rydym yn nodi'r ffyrdd rydym yn disgwyl i bob sefydliad a system weithio mewn modd sy'n ystyriol o drawma ac rydym am hyrwyddo gwasanaethau caredig a thosturiol. Mae Amcan 4 yn nodi'r polisïau a'r rhaglenni sy'n cefnogi addysg gynhwysol ac yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau mewn ysgolion.

Mae Blaenoriaeth 4 yn nodi ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu mewn modd sy'n canolbwyntio ar hawliau plant, yn unol â CCUHP, gyda threchu tlodi ac anghydraddoldeb yn ffactorau ysgogi polisi trawsbynciol. Gweithio gyda Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru i roi Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma ar waith, a fydd yn cynnwys nodi unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen, gan gynnwys help a chymorth ar gyfer sefydliadau. Mynd ati ar frys i roi ffocws newydd i'n gwaith gydag Estyn, ein partneriaid a rhanddeiliaid ehangach er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau i roi dulliau prawfesur addysg o safbwynt tlodi ar waith a chreu amgylcheddau addysg cynhwysol sy'n seiliedig ar Hawliau'r Plentyn a gwerthoedd nad ydynt yn gwahaniaethu yn gyson. Herio gwahaniaethu ac annog cydraddoldeb er mwyn sicrhau nad yw nodweddion gwarchodedig yn ei gwneud hi'n fwy anodd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd wneud yn dda, gan gynnal ffocws clir ar ein cynlluniau cydraddoldeb er mwyn cyflawni hyn.

Gwnaethom gynnwys pedwar maes trafod yn ein gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori, ac mae'r rhain yn uniongyrchol gysylltiedig ag amcanion 1-4 y strategaeth. Fel rhan o'r gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori, clywsom gan 220 o bobl sy'n gweithio mewn sefydliadau a gwasanaethau sy'n cefnogi a/neu'n siarad ar ran plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd â phrofiad bywyd o dlodi.

Gwnaethant ddweud wrthym, er mwyn gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc mewn tlodi, bod angen integreiddio cryfach ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a chymorth ar gyfer cydweithredu pellach rhwng partneriaid ar lefel ranbarthol a lleol. Er mwyn inni gyflawni ein hamcanion mewn modd effeithiol, mae angen inni greu'r amodau cywir i alluogi newid.

Wrth inni fynd ar drywydd gwaith o dan Amcan 5 y strategaeth y hon, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn gallu arfer ei hawliau drwy bolisïau a darpariaeth sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau plant.

Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi datblygu cyfres o adnoddau, Y Ffordd Gywir: Dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, sy'n gosod CCUHP wrth wraidd y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau. Wrth inni weithio gyda phartneriaid i gryfhau'r cydweithio, dod o hyd i ddatrysiadau gyda'n gilydd a hyrwyddo arferion da, bydd yn bwysig sicrhau ein bod, gyda'n gilydd, yn gweithredu mewn modd sy'n seiliedig ar hawliau plant. Byddwn y defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, fel Y Ffordd Gywir, i ategu'r gwaith hwn.

Hawliau Plant o dan CCUHP a'r Strategaeth Tlodi Plant

Erthygl 2 – Dylai pob plentyn allu arfer ei hawliau a chael ei drin yn gyfartal heb wahaniaethu. Mae cydraddoldeb yn golygu gwneud yn siŵr bod anghenion unigol plant yn cael eu diwallu fel eu bod yn cael yr un cyfleoedd ag eraill i wireddu eu potensial. Mae hyn hefyd yn golygu dileu'r rhwystrau sy'n atal plant rhag gallu gwneud hyn.

Rhaid i bopeth a wnawn o dan Erthygl 2 o CCUHP fod heb wahaniaethu. Mae croestoriadedd yn derm y gellir ei ddefnyddio i'n helpu i ystyried gwahaniaethu, anghydraddoldeb ac anfantais. Mae'n gofyn inni ystyried y cyfuniad o hunaniaethau gwahanol sydd gan bob unigolyn (fel cefndir economaidd, rhyw a hunaniaeth o ran rhywedd, ffydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd a mwy). Gallai'r rhain olygu bod unigolion yn cael eu hymyleiddio neu eu trin yn annheg, gan gynnwys drwy effaith gyfunol nodweddion, a rhaid inni feddwl am bob un o'r rhain wrth ystyried sut mae gwahaniaethu yn digwydd.

Ym mhopeth a wnawn i fynd i'r afael â thlodi plant, byddwn hefyd yn ystyried materion cydraddoldeb, gan gynnwys ystyried sut rydym yn hyrwyddo:

- Erthygl 22 (plant sy'n ffoaduriaid),
- Erthygl 14 (rhyddid meddwl, cred a chrefydd),
- Erthygl 23 (plant anabl),
- Erthygl 30 (plant o grwpiau lleiafrifol neu gynhenid).

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu ein nodau a'n hamcanion ar gyfer cydraddoldeb hyd at 2024, ynghyd â'r prif gamau i gyflawni'r amcanion hynny.

Wrth ddatblygu'r Strategaeth Tlodi Plant, byddwn yn ystyried, ar y cyd â'n partneriaid, croestoriadedd ac Erthygl 2 o CCUHP, ym mhopeth a wnawn. Ar yr un pryd, bydd angen i bob un o'r Cynlluniau Gweithredu isod ystyried y croestoriadedd rhwng tlodi a gwahaniaethu:

- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau: cynllun gweithredu
- Gweithredu ar anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol – Fframwaith a Chynllun Gweithredu
- Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru

Erthygl 3 (Lles pennaf y plentyn): Y prif beth y mae'n rhaid ei ystyried wrth wneud penderfyniadau a allai effeithio ar blant yw lles pennaf y plant. Dylai pob oedolyn wneud yr hyn sydd orau i blant. Pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau, dylent feddwl am y ffordd y bydd eu penderfyniadau yn effeithio ar blant. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â'r rhai sy'n llunio cyllidebau, polisïau a chyfreithiau.

Rydym wedi ystyried tystiolaeth i'n gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc, tystiolaeth gan blant a phobl ifanc a gymerodd ran yn ymgynghoriad cenedlaethol Comisiynydd Plant Cymru, a thystiolaeth gan blant a phobl ifanc a gymerodd ran yn arolwg blynyddol Plant yng Nghymru. Mae hyn wedi ein helpu i ddeall yr effaith y mae ein penderfyniadau yn ei chael ar blant, yr hyn sy'n

bwysi iddynt, a'r hyn y mae angen inni ei wneud er eu budd pennaf wrth ddatblygu strategaeth i gyfeirio gwaith dros yr hirdymor.

Nod y gwaith o dan Amcan 1 a Blaenoriaeth 1 yw hyrwyddo hawliau plant o dan erthyglau canlynol CCUHP:

- Erthygl 26 (Nawdd Cymdeithasol) – bwriedir i'r gwaith o hyrwyddo argaeledd gwybodaeth a chyngor wyneb yn wynebu a datblygu system Budd-daliadau i Gymru sicrhau y gall teuluoedd fanteisio'n llawn ar eu hawliau i gael nawdd cymdeithasol,
- Erthygl 27 (safon byw sy'n ddigonol) – bydd darparu'r cyflog cymdeithasol a help i brynu eitemau hanfodol yn cadw mwy o arian ym mhocedi rhieni/gofalwyr ac yn sicrhau safon byw sy'n ddigonol i'w plant,
- Erthygl 24 (iechyd a gwasanaethau iechyd) – mae help gyda bwyd a thlodi tanwydd yn bwysig i gefnogi iechyd a llesiant plant.

Nod y gwaith o dan Amcan 2 a Blaenoriaeth 2 yw hyrwyddo hawliau plant o dan erthyglau canlynol CCUHP:

- Erthygl 6 (byw, goroesi a datblygu), Erthygl 31 (hamdden, chwarae a diwylliant) Gwyddom y gall tlodi gael effaith andwyol ar ddatblygiad plant a'r gallu i ddysgu drwy chwarae yn y blynyddoedd cynnar, ac rydym wedi nodi'r ffyrdd rydym yn ceisio mynd i'r afael â hyn.
- Erthygl 28 (yr hawl i addysg), Erthygl 29 (nodau addysg) Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg, ond gall tlodi gael effaith negyddol ar brofiadau addysgol, cyfranogiad a deilliannau plant. Ein huchelgais yw sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb drwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a chefnogi pob dysgwr.
- Erthygl 27 (safon byw sy'n ddigonol) Bydd adeiladu economi gref a chefnogi pobl ifanc a rhieni/gofalwyr i gael gwaith teg yn helpu i sicrhau safon byw sy'n ddigonol i'r genhedlaeth hon o blant, a chenedlaethau'r dyfodol. Mae gweithio i ddileu rhwystrau i gyflogaeth i bobl anabl, menywod, gofalwyr a phobl ethnig leiafrifol yn bwysig gan fod plant sy'n tyfu i fyny mewn teulu lle mae rhywun yn anabl, gyda rhiant unigol (y mae'r mwyafrif ohonynt yn fenywod), ac mewn teuluoedd ethnig leiafrifol yn wynebu mwy o risg o dlodi.

Nod y gwaith o dan Amcan 3 a Blaenoriaeth 3 yw hyrwyddo hawliau plant o dan erthyglau canlynol CCUHP:

- Erthygl 18 (cyfrifoldebau rhiant a chymorth gan y wladwriaeth). Erthygl 19 (diogelu rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod) Mae'r strategaeth yn nodi'r ffordd rydym yn cefnogi rhieni/gofalwyr a'r ffordd rydym am wella'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd incwm isel yn eu cymunedau. Nid yw'r cysylltiad rhwng camdriniaeth a thlodi yn un syml, ond gall cynnig cymorth cynnar i deuluoedd ac adeiladu cymunedau sy'n ffynnu leihau'r risg o niwed i blant.
- Erthygl 24 (iechyd a gwasanaethau iechyd) Mae cysylltiad cryf rhwng tlodi plant ac anghydraddoldebau iechyd, ac mae'r strategaeth yn nodi ein polisïau i gefnogi iechyd meddwl a llesiant a'n polisïau ar gyfer tai gweddus sy'n effeithlon o ran ynni, oherwydd gwyddom fod tai o safon wael yn cael effaith negyddol ar iechyd plant. Mae mynediad i fannau agored a'r gallu i fanteisio ar

gyfleoedd chwarae, chwaraeon a hamdden hefyd yn bwysig i gefnogi iechyd a llesiant plant.

- Erthygl 24 (safon byw sy'n ddigonol) Bydd ein cynlluniau ar gyfer tai gweddus sy'n effeithlon o ran ynni ac atal digartrefedd yn helpu i sicrhau safon byw sy'n ddigonol i blant. Bydd hyrwyddo gwybodaeth, cymorth a chyngor hygyrch sydd ar gael yn y gymuned yn helpu rhieni/gofalwyr i sicrhau hawliau ac ymyriadau a all eu helpu i gynnig safon byw sy'n ddigonol i'w plant.
- Erthygl 31 (hamdden, chwarae, diwylliant) Rydym yn nodi y byddwn yn gweithio tuag at gynnig gwasanaethau cydgysylltiedig mewn cymunedau a chyfleoedd lleol i chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau i bobl ifanc er mwyn cefnogi iechyd a llesiant.

Nod y gwaith o dan Amcan 4  a Blaenoriaeth 4 yw hyrwyddo hawliau plant o dan erthyglau canlynol CCUHP:

- Erthygl 12 (parchu barn y plentyn) Byddwn yn cytuno ar ffyrdd o gynnwys plant a phobl ifanc er mwyn ein helpu i ddeall a ydym yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r strategaeth pan fyddwn yn adrodd ar ein cynnydd.
- Erthygl 24 (iechyd a gwasanaethau iechyd) Bydd gwasanaethau caredig a thosturiol yn helpu plant a phobl ifanc i gael profiadau addysgol da ac yn lleihau effaith tlodi plant ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant.
- Erthygl 29 (nodau addysg) Wrth inni gyflawni'r strategaeth, byddwn yn gweithio i sicrhau na chaiff plant eu stigmateiddio oherwydd amgylchiadau ariannol eu teuluoedd, ac i wella cyfleoedd i blant deimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn lleoliadau addysgol er mwyn iddynt allu gwireddu eu potensial.
- Erthygl (gwybodaeth am hawliau). Wrth inni gyflawni'r strategaeth, byddwn yn helpu pobl sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd i ddeall yr effaith y mae tlodi yn ei chael ar hawliau plant a sut i wneud yn siŵr na chaiff plant a phobl ifanc eu stigmateiddio.

Nod y gwaith o dan Amcan 5  a Blaenoriaeth 5 yw hyrwyddo hawliau plant o dan erthyglau canlynol CCUHP:

- Erthygl 4 (rhoi'r Confensiwn ar waith): Mae'r strategaeth yn nodi y byddwn, wrth inni weithio gyda'n partneriaid i gyflawni amcanion a blaenoriaethau'r strategaeth, yn defnyddio dull sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau plant.
- Erthygl 42 (gwybodaeth am hawliau) Mae'r strategaeth yn nodi y byddwn, wrth inni weithio gyda phartneriaid i alluogi cydweithio a chefnogi arferion da, yn ystyried dull sy'n seiliedig ar hawliau plant fel un o egwyddorion sylfaenol y gwaith y byddwn yn ei ddatblygu gyda'n gilydd.

Cyngor i Weinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Nododd swyddogion yn yr Is-adran Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd gynigion mewn perthynas â datblygu'r strategaeth ddiwygiedig mewn cyflwyniad i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip.

Cytunodd y Gweinidog i'r dull gweithredu cyffredinol ddiwedd mis Mai 2023. Cymeradwyodd Cabinet Llywodraeth Cymru y Strategaeth er mwyn ymgynghori arni ar 5 Mehefin 2023.

Lluniwyd y strategaeth hon ar y cyd â theuluoedd sydd â phrofiad bywyd o dlodi, a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi. Mae dros 3,200 o unigolion, gan gynnwys 1,402 o blant a phobl ifanc, wedi rhoi o'u hamser i siarad â ni a'n helpu i ddeall yr hyn y mae angen inni roi blaenoriaeth iddo.

Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn ar y Strategaeth Tlodi Plant dros gyfnod o 12 wythnos, gan ddod i ben ar 11 Medi 2023. Gwahoddwyd ymatebion drwy dudalen we yn ogystal ag yn uniongyrchol i'r Tîm Polisi Trechu Tlodi drwy'r post neu e-bost. Cyhoeddwyd dogfen yn crynhoi'r ymatebion ar 23 Ionawr.

Cytunodd y Gweinidog ar fersiwn derfynol y Strategaeth ym mis Tachwedd 2023. Cymeradwyodd Cabinet Llywodraeth Cymru y Strategaeth i'w chyhoeddi ar 20 Mehefin 2023.

Cyhoeddwyd fersiwn derfynol Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2023 ynghyd â'i Hasesiad Effaith Integredig, ar 23 Ionawr.

Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Gwnaethom lunio fersiwn i bobl ifanc o'r strategaeth er mwyn ymgynghori arni, a gwnaethom rannu hon â'r holl sefydliadau a gefnogodd y gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc.

Fel rhan o'r gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc, gwnaethom ofyn sut yr hoffent glywed gennym am y ffyrdd y gwnaethom ddefnyddio'r dystiolaeth y gwnaethant ei rhoi i ni, a sut yr hoffent glywed am y strategaeth derfynol. Dywedodd y plant a'r bobl ifanc eu bod am i'r wybodaeth gael ei rhannu â nhw drwy eu hysgol neu sefydliad y maent yn gweithio gydag ef.

Ysgrifennodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip lythyr yn diolch i'r plant, y bobl ifanc ac eraill a gymerodd ran yn y gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori, a gofyn iddynt ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd y llythyr hwn yn rhoi gwybod iddynt fod yr hyn y gwnaethant ddweud wrthym wedi ein helpu i wneud penderfyniadau am yr hyn y dylid canolbwyntio arno yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru. Gwnaethom ofyn i'r sefydliadau a gefnogodd y sesiynau ymgysylltu i rannu'r llythyr â'r plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn i bobl ifanc o'r strategaeth derfynol ac yn ei hyrwyddo mewn ffordd debyg. Rydym yn ystyried y ffyrdd gorau o gyfathrebu â phlant a phobl ifanc am y strategaeth ei hun a'r gwaith i'w chyflawni. Mae hyn yn cynnwys ystyried sianeli cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau fformat hygyrch.

Monitro ac Adolygu

Pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, gosododd ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu amcanion tlodi plant ac i adrodd bob tair blynedd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion hynny.

Lluniwyd y strategaeth hon ar y cyd â'r plant, y bobl ifanc, y teuluoedd a'r sefydliadau sydd wedi rhoi o'u hamser er mwyn ein helpu i ddeall beth fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf iddynt. Rydym yn ymrwymedig i gynnal y ffordd hon o weithio wrth inni gyflwyno'r strategaeth ddrafft.

Rydym yn bwrw ymlaen â gwaith i ganfod y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru i fonitro ac adrodd ar effaith y strategaeth hon yn y dyfodol.

Byddwn hefyd yn ceisio cyngor ar y ffyrdd gorau o gynnwys plant a phobl ifanc sydd â phrofiad bywyd o dlodi yn uniongyrchol er mwyn ein helpu i ddeall a ydym ni a'n partneriaid yn gwneud cynnydd drwy gyflawni'r strategaeth ac, yn bwysicaf oll, ein helpu i ddeall a yw'r gwaith a wneir o dan y strategaeth yn hyrwyddo hawliau a chanlyniadau plant a phobl ifanc.

Bydd Adroddiad Cynnydd nesaf y Strategaeth Tlodi Plant ar gael ym mis Rhagfyr 2025. Byddwn hefyd yn ystyried y ffyrdd gorau o rannu ein cynnydd â phlant a phobl ifanc.